## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): Chwarae Cymru

E-bost / rhif ffôn: 029 2280 7388

Eich cyfeiriad: Tŷ Parc, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd CF10 3AF

Bydd datblygu cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn cymryd amser. Mae angen newid deddfwriaethol i gyflwyno'r gofyniad am gofrestr o'r gweithlu a byddai creu'r gofrestr ei hun a datblygu gweithdrefnau Cod Ymarfer ac Addasrwydd i Ymarfer yn gofyn am amserlen y tu hwnt i dymor y Senedd hon. Byddai angen datblygu cofrestr mewn cydweithrediad â'r sector gofal plant a gwaith chwarae, yn benodol mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol y sector fel partneriaid Cwlwm, Chwarae Cymru ac Awdurdodau Lleol. Byddai cyfleoedd pellach i ymgysylltu â'r sector yn uniongyrchol i lunio cofrestr o'r gweithlu ynghyd ag ymgynghoriad pellach i ofyn am adborth ar fanylion arfaethedig unrhyw gofrestr yn y dyfodol, ond mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar rai cwestiynau sylfaenol er mwyn i ni benderfynu ar y potensial ar gyfer cofrestr o'r gweithlu ar gyfer gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru.

Amdanoch chi

Mae Chwarae Cymru, yr elusen genedlaethol dros chwarae plant yng Nghymru, yn eiriol dros angen a hawl pob plentyn i chwarae. Ein meysydd allweddol:

- Cynyddu ymwybyddiaeth
- Hybu arfer da
- Darparu cyngor ac arweiniad ar draws pob sector.

Mae ein gwaith yn cynnwys:

- **Polisi**: Gweithio gydag unigolion, sefydliadau a rhwydweithiau i hysbysu datblygiad polisi a materion chwarae plant eraill.
- **Gwasanaeth gwybodaeth**: Hybu gwerth chwarae plant trwy ddarparu gwybodaeth gyfredol ac amserol i bawb sydd â diddordeb mewn, neu sy'n gyfrifol am, chwarae plant
- **Cyngor a chefnogaeth**: Darparu gwybodaeth arbenigol am bob mater sy'n effeithio ar chwarae plant.
- **Datblygu'r gweithlu**: Cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol y gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae.

**Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio orau?**

A) Rwy'n aelod o sefydliad rhanddeiliaid neu'n gweithio i awdurdod lleol.

B) Rwy'n gweithio yn y sector gofal plant a gwaith chwarae.

C) Rwy'n gwirfoddoli yn y sector gofal plant a gwaith chwarae.

D) Rwy'n rhiant neu'n ofalwr i blentyn o dan 12 oed.

E) Dim un o'r uchod

F) Gwell gennyf beidio â dweud.

**Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich rôl orau?**

A) Rheolwr lleoliad

B) Gwarchodwr plant

C) Ymarferydd gofal plant

D) Ymarferydd gwaith chwarae

E) Nani / Au pair

F) Unigolyn cyfrifol / Person cofrestredig

G) Arall

H) Gwell gennyf beidio â dweud.

| 1. Byddai cofrestr o'r gweithlu yn cynnig manteision ar gyfer: | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y rhai sy'n gweithio yn y sector gofal plant a gwaith chwarae | | | x | | | |
| Cyflogwyr yn y sector gofal plant a gwaith chwarae | | | x | | | |
| Teuluoedd sy'n defnyddio'r sector gofal plant a gwaith chwarae | | | x | | | |
| Sut ydych chi'n meddwl y byddai cofrestr o fudd i'r grwpiau hyn? Esboniwch eich ateb. | | | | | | |
| Mae Chwarae Cymru wedi cynnal ystod o grwpiau ffocws yn y cyfnod cyn yr ymgynghoriad hwn. Mae hyn yn cynnwys: | | | | | | |

- Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) – sy’n cynnwys cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a sefydliadau cenedlaethol sy'n ymwneud â gwaith chwarae.
- Rhwydwaith gwaith chwarae mynediad agored – sy’n cynnwys gweithwyr chwarae, cyflogwyr a rheolwyr ar draws darpariaeth gwaith chwarae awdurdodau lleol a'r trydydd sector.
- Rhwydwaith swyddogion cyfleoedd chwarae digonol – sy’n cynnwys y rhai sy’n gyfrifol am gynnal yr Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae statudol.

Mae ein hymateb yn seiliedig yn bennaf ar fanteision ac anfanteision cofrestriad proffesiynol ar gyfer gweithwyr chwarae mewn darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored yn y gymuned. Felly rydym wedi ateb 'ddim yn siŵr' mewn perthynas â'r cwestiynau ar gyfer gwarchodwyr plant a gofal plant. Mae disgrifiad manylach o waith chwarae mynediad agored ar gael ar ein gwefan: [www.chwarae.cymru/publications_category/focus-on-play-recognising-and-understanding-the-importance-of-community-based-open-access-playwork-provision/](www.chwarae.cymru/publications_category/focus-on-play-recognising-and-understanding-the-importance-of-community-based-open-access-playwork-provision/)

Rydym wedi annog rhanddeiliaid mewn gwaith chwarae mynediad agored yn gryf i ddweud eu barn yn yr ymgynghoriad hwn ac wedi rhannu drafft o’n hymateb ni er mwyn eu cynorthwyo i ymateb. Mae sefydliadau yn y trydydd sector yn ddarparwyr allweddol gwasanaethau gwaith chwarae mynediad agored ledled Cymru, ochr yn ochr â darpariaeth awdurdodau lleol. Gan fod y cyd-destun yn wahanol iawn ar gyfer gwaith chwarae mynediad agored, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried barn ymatebwyr o'r maes gwaith chwarae mynediad agored fel grŵp ar wahân ac fel is-sector gofal plant a gwaith chwarae.

Ceir cefnogaeth mewn egwyddor i fanteision cofrestriad proffesiynol ar gyfer gweithwyr chwarae mynediad agored a chyflogwyr. Mae’r manteision a nodwyd yn cynnwys:

- Cydnabyddiaeth yn y dyfodol i waith chwarae fel proffesiwn a galwedigaeth
- Y potensial i gael cyllid ar gyfer datblygu gweithlu gwaith chwarae yn y dyfodol, yn enwedig hyfforddiant a chymwysterau.

Fodd bynnag, mewn sawl ffordd caiff y cymorth hwn ei ysgogi gan yr awydd i waith chwarae beidio â cholli cyfle neu gael ei weld fel maes sy'n israddol i feysydd eraill o'r gweithlu plant y mae cofrestriad proffesiynol yn berthnasol iddynt. Nodwyd llawer o bryderon drwy ein gweithgaredd ymgysylltu sydd wedi'u crynhoi yn yr ymateb hwn – pryderon y byddai angen eu datrys mewn cynlluniau ar gyfer cofrestriad proffesiynol i weithwyr chwarae mynediad agored yn y dyfodol.

Ymhellach, er bod hyder y cyhoedd yn y sector yn cael ei amlygu yn y ddogfen ymgynghori, mae'n amlwg nad oes llawer o deuluoedd yn deall y trefniadau presennol ynghylch cofrestru lleoliadau. Mae'n deg tybio y byddai'r sefyllfa yn debyg ar gyfer cofrestriad proffesiynol.

Mae’r sector gwaith chwarae mynediad agored yn gymharol fach ac yn ystod y deng mlynedd diwethaf gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y ddarpariaeth sydd wedi’i chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Ni fyddai Chwarae Cymru am weld cofrestriad proffesiynol yn cyfrannu at ostyngiad pellach yn nifer y lleoliadau gwaith chwarae cofrestredig neu leihad yn y gweithlu. Gallai gostyngiad o'r fath arwain at oblygiadau pellach i drefniadau diogelu yn ogystal ag ansawdd y ddarpariaeth.

Mae adroddiad Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Chwarae (Chwefror 2023) ac ymateb Llywodraeth Cymru (Hydref 2023), wedi ymrwymo i adolygu’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwarchod Plant a Gofal Dydd, yn ogystal â Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd). Gallai’r adolygiadau hyn gael effaith sylweddol ar nifer y lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored sydd wedi’u

| |
|---|
| cofrestru, neu y mae’n ofynnol eu cofrestru, ag AGC. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at oblygiadau i nifer y gweithwyr chwarae y byddai angen eu cofrestru'n broffesiynol. Byddai angen ymgynghori yn y dyfodol ar fanylion cofrestriad proffesiynol ar gyfer y gweithlu ar ôl i'r adolygiadau hyn gael eu cwblhau. |

| 2. Dylai ymuno â chofrestr o'r gweithlu fod yn **orfodol** i'r rhai sy'n gymwys. | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | x | | | |
| Esboniwch eich ateb. | | | | | | |
| I'r aelodau hynny o'r gweithlu sy'n gweithio gydol y flwyddyn y nodir eu bod wedi'u cofrestru, mae'n gwneud synnwyr cael rhyw lefel o gofrestru mandadol. Fodd bynnag, gall gweithwyr chwarae sy'n gweithio mewn cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau gael eu cyflogi am gyn lleied â phythefnos y flwyddyn. Bydd cofrestru’r unigolion hyn, yn enwedig os yw’r ffi yr un fath ag ar gyfer staff sy'n gweithio gydol y flwyddyn, yn her ac yn annheg a gallai arwain at anawsterau o ran recriwtio a chadw staff ar gyfer cynlluniau chwarae cofrestredig yn ystod y gwyliau. Byddai hefyd yn rheswm arall i gynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau ddefnyddio'r Gorchymyn Eithriadau i weithredu fel darpariaeth heb ei rheoleiddio. | | | | | | |

| 3. **DYLID** cynnwys y canlynol mewn cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae | Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl staff mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig sy'n cael eu talu i weithio'n uniongyrchol gyda phlant | | | | | | x |
| Yr holl staff mewn lleoliadau gwaith chwarae cofrestredig sy'n cael eu talu i weithio'n uniongyrchol gyda phlant | | | x | | | |
| Yr holl staff mewn lleoliadau gwarchodwyr plant cofrestredig sy'n cael eu talu i weithio'n uniongyrchol gyda phlant | | | | | | x |
| Sut ydych chi'n meddwl y byddai cofrestr o fudd i'r grwpiau hyn? Esboniwch eich ateb. | | | | | | |
| Rydym wedi amlinellu manteision posibl i’r sector gwaith chwarae uchod o ran proffesiynoli’r gweithlu. Pe byddai'n ofynnol i weithwyr chwarae gofrestru, yna byddai angen datrys y pryderon a amlinellir yng Nghwestiwn 5. | | | | | | |

| |
|---|
| Oherwydd natur ein gweithgaredd ymgysylltu (gwaith chwarae) nid ydym wedi gwneud sylwadau ar gofrestriad proffesiynol ar gyfer lleoliadau gwarchod plant a gofal plant. |

| 4. **NI** ddylai'r canlynol gael eu cynnwys mewn cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae heb eu cofrestru | | | x | | | |
| Gwirfoddolwyr | | x | | | | |
| Personau Cofrestredig / Unigolion Cyfrifol nad ydynt yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant | | x | | | | |
| Myfyrwyr sy'n gweithio'n wirfoddol mewn lleoliad gofal plant neu waith chwarae cofrestredig | | x | | | | |
| Staff, fel glanhawyr, sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig ond nad ydynt mewn cysylltiad uniongyrchol â phlant | | x | | | | |
| Nanis | | x | | | | |
| Esboniwch eich ateb. | | | | | | |
| Drwy ein gweithgaredd ymgysylltu, codwyd y cwestiwn ynghylch proffesiynoli'r gweithlu. Os felly, pam mae'r ffocws ar leoliadau cofrestredig yn unig? Canfu Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru (Chwarae Cymru, 2021) fod dros hanner y gweithwyr chwarae yn gweithio mewn darpariaeth anghofrestredig a fyddai'n golygu na fyddai gan gyfran sylweddol o'r gweithlu gofrestriad proffesiynol.<br><br>Mae Chwarae Cymru o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r rhesymeg i beidio â chynnwys y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau anghofrestredig, os cyflwynir cofrestriad proffesiynol ar gyfer gweithwyr chwarae mewn lleoliadau cofrestredig. Gall hyn gynnwys cofrestru gwirfoddol ar gyfer rhai rhannau o'r gweithlu.<br><br>Byddai'r heriau a amlinellir yng Nghwestiwn 5 hefyd yn berthnasol i'r rhai sy'n gweithio mewn darpariaeth anghofrestredig, yn enwedig mewn perthynas â chontractau tymhorol a chontractau dim oriau. | | | | | | |

| | Dylai | Na ddylai | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|

| 5. A ddylai cofrestr gofal plant a gwaith chwarae gael ei sefydlu yng Nghymru? | | | x |
|---|---|---|---|
| Esboniwch eich ateb. | | | |

Fel y trafodir uchod, mae rhywfaint o gefnogaeth i'r egwyddor o gofrestriad proffesiynol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod y pryderon yn drech na'r manteision. Ni fyddem am weld y sector gwaith chwarae dan anfantais, felly byddem yn cynghori'n gryf fod y pryderon a amlinellir isod yn cael sylw mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol i gefnogi penderfyniad mwy gwybodus ar gyfer y sector.

Mae tri phrif bryder eisoes wedi'u hamlygu fel rhan o'r ymchwil a wneir gan y Sefydliad Polisi Addysg (Gorffennaf 2021):

1. Cost cofrestru – awgrymwyd ffigur o £45-100. Byddai hyn yn afresymol i lawer, yn enwedig y rhai sy'n gweithio ar isafswm cyflog, contractau dim oriau a'r rhai mewn rolau tymhorol tymor byr. Mewn rhai achosion mae staff hefyd yn talu am eu gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a'u hyfforddiant eu hunain.
2. Cofrestriad deuol – yn dibynnu ar bwy sy'n cofrestru'r gweithlu gwaith chwarae, mae yna lawer o weithwyr chwarae sydd hefyd yn gweithio mewn gwaith ieuenctid, gofal plant neu addysg, a fyddai angen cofrestriad ar wahân. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bobl gofrestru ddwywaith, i gael manteision tebyg am ddwywaith y gost.
3. Amseriad – ar hyn o bryd mae'r sector eisoes dan bwysau, gyda staff ar gyflogau isel neu gontractau dim oriau yn dewis gadael y sector a chael gwaith mwy dibynadwy yn y meysydd manwerthu neu letygarwch. Rhaid datrys rhai o'r problemau'n ymwneud â recriwtio, cadw a chydnabyddiaeth i'r sector cyn cyflwyno gofyniad ychwanegol ar y sector.

Yn ogystal â hynny, codwyd y pryderon canlynol.

- Y Gorchymyn Eithriadau ac adolygiadau o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol – os bydd rhai o'r bylchau'n cael eu cau a bod y broses gofrestru'n fwy syml, mae'n bosibl y byddwn yn gweld cynnydd mewn lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored sy'n cofrestru gydag AGC. Bydd hyn yn effeithio ar nifer y gweithwyr chwarae y mae angen iddynt gael cofrestriad proffesiynol a'r heriau cysylltiedig o ran cost, cofrestriad deuol ac amseru.
- Cofrestru mandadol – i bobl ar gontractau dim oriau neu dymor byr iawn, byddai cofrestru mandadol yn anghymesur ac yn gyfyngol.
- Recriwtio a chadw – mae lleoliadau eisoes yn dweud eu bod yn wynebu heriau o ran dod o hyd i staff dibynadwy, cymwys. Mae'r gofyniad iddynt gael eu cofrestru hefyd yn faich ychwanegol.
- Cod(au) ymddygiad – beth fydd y cysylltiadau rhwng cofrestrau? Er enghraifft, os ymchwilir i rywun sydd wedi torri cod ymddygiad ar gyfer gwaith ieuenctid neu addysgu, beth fyddai'r goblygiadau i'r gofrestr gofal plant a gwaith chwarae?

Deall cwmpas/demograffeg y gweithlu – er y byddai cofrestriad proffesiynol yn helpu i ddeall pwy sy'n gweithio yn y sector a'r cymwysterau a'r hyfforddiant y maent wedi'u cyflawni, byddai hyn ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau cofrestredig yn unig. Gan fod cyfran sylweddol o waith chwarae mynediad agored yn anghofrestredig, ni fyddai hyn yn helpu i gael gwell dealltwriaeth o hyd a lled y gweithlu.

| 6. Pe bai cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn cael ei datblygu, pryd ydych chi'n meddwl y dylai hyn ddigwydd? | Yn y tymor byr (datblygu'r gofrestr o fewn 2-3 blynedd) | Yn y tymor canolig (datblygu'r gofrestr o fewn 4-6 blynedd) | Yn y tymor hir (datblygu'r gofrestr o fewn 7-10 mlynedd) | Dim o gwbl | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | x | | |

| |
|---|
| Esboniwch eich ateb. |
| Fel yr eglurir uchod, mae cefnogaeth i'r egwyddor o gofrestriad proffesiynol. Fodd bynnag, er mwyn datrys rhai o'r materion eraill ble y gall fod angen newid deddfwriaethol, credwn ei bod yn bragmataidd i gyflwyno hyn dros y tymor hwy ac i ymgynghori ymhellach ar y manylion, fel y cynigir yn y ddogfen ymgynghori. Gallai hyn hefyd gefnogi cyflwyno'r fenter hon ar adeg pan fo cyllid ar gyfer darpariaeth gwaith chwarae yn fwy sefydlog. |

| |
|---|
| 7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ynglŷn â datblygu cofrestr ar gyfer y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae? |
| |

Cwestiwn 8: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynnig ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mewn perthynas â mynediad i gyfleoedd hyfforddi dwyieithog a datblygiad parhaus gweithlu dwyieithog, os bydd cofrestriad proffesiynol yn effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr medrus fel yr amlinellwyd, bydd hyn hefyd yn effeithio ar weithwyr chwarae Cymraeg eu hiaith. Mae lleoliadau yn aml yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff medrus, dwyieithog, ac mae gan ddarparwyr hyfforddiant diwtoriaid cyfyngedig sy'n alwedigaethol gymwys mewn gwaith chwarae ac sydd hefyd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Er mwyn meithrin gweithlu dwyieithog mae angen i ni sicrhau ei bod yn haws cael mynediad i swyddi a hyfforddiant, nid yn anos.

Cwestiwn 9: Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu cynnig er mwyn sicrhau:

- ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a
- nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

Cwestiwn 10: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: